Disgrifiad Swydd

Cyfle i Wirfoddoli yn yr Hangout

Lleoliad: Caerdydd

Oriau: Shifft 4 awr neu 8 awr.

Platfform

Yn Platfform, ein gweledigaeth yw ‘lles cynaliadwy i bawb’. Mae’n weledigaeth fawr mewn byd mawr a chymhleth, ond yn un rydyn ni’n teimlo’n angerddol amdani.
Rydyn ni’n gweithio ochr yn ochr â phobl sy’n wynebu heriau gyda’u hiechyd meddwl, a gyda chymunedau sydd am greu ymdeimlad o gysylltiad, o berchnogaeth ac o les yn eu hardal leol.
Rydyn ni’n rhan o fudiad cynyddol o bobl a sefydliadau nad ydynt yn credu bod systemau ‘helpu’ presennol cymdeithas yn addas i’r diben. Rydyn ni’n gwybod bod angen newid radical ar y systemau hyn er mwyn cyfrannu’n wirioneddol at ein gweledigaeth gyffredin o ‘les cynaliadwy i bawb.’

Rydyn ni’n profi ac yn datblygu dull gweithredu sy’n seiliedig ar asedau, yn ystyriol o drawma ac yn canolbwyntio ar wella, fel ymateb i’r dulliau sy’n seiliedig ar ddiffygion, sy’n achosi trawma ac sy’n aml yn niweidiol a ddefnyddir gyda llawer o bobl pan fyddant yn gofyn am help.

Y rôl

Mae’r Hangout yn ganolfan iechyd meddwl cynnar yng Nghaerdydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 18 oed ledled Caerdydd a’r Fro, wedi’i chomisiynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro. Nid yw ein gwasanaeth yn dibynnu ar ddiagnosis ac mae’n croesawu unrhyw bobl ifanc a fyddai’n elwa ar ein gofod, naill ai drwy alw heibio neu atgyfeiriadau. Ein gweledigaeth yw bod yn lle diogel i bobl ifanc gysylltu â phobl eraill i deimlo’n rhan o’u cymuned, ac i gael gafael ar gymorth iechyd meddwl a lles pan fo angen.

Mae ein Hymarferwyr Lles yn darparu cymorth un-i-un i’r bobl ifanc ac mae’r Hangout yn cynnig sesiynau sy’n canolbwyntio ar les, a gweithgareddau grŵp sy’n seiliedig ar ddiddordebau’r bobl ifanc. Rydyn ni hefyd yn cydweithio drwy gyfeirio at sefydliadau partner i helpu pobl ifanc i ddod o hyd i gymorth pan fydd atgyfeirio drwy’r system feddygol draddodiadol yn gallu bod yn llethol, yn enwedig pan fydd person ifanc yn mynd drwy gyfnod anodd iawn.

Rydyn ni'n falch o gynnig cyfleoedd gwirfoddoli yn yr 'Hangout' i bobl sydd â phrofiad ym maes iechyd meddwl, seicoleg, sydd wedi gweithio gyda phobl ifanc neu sy'n frwd dros helpu pobl.

Mae'r Hangout ar agor rhwng 3pm a 9pm, gan gynnig shifftiau hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn yn dibynnu pryd rydych chi ar gael. Rydyn ni'n chwilio am ddau wirfoddolwr brwdfrydig bob dydd, 7 diwrnod yr wythnos, i gefnogi pobl ifanc a chynnal gweithgareddau hwyliog ar eu cyfer fel celf a chrefft, gemau, chwaraeon, sesiynau lles ac ati.

Byddai gwirfoddoli gyda ni yn gyfle gwych i ddatblygu sgiliau er mwyn cefnogi pobl ifanc sydd â heriau iechyd meddwl, darparu sesiynau lles a gweithgareddau, meithrin gwybodaeth broffesiynol, magu hyder wrth ddelio ag amrywiaeth o amgylchiadau, gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol a chymryd rhan mewn ymarfer myfyriol. Hefyd, os oes gennych chi unrhyw nodau gyrfa penodol, gallwn helpu i gefnogi eich datblygiadau gyrfa, eich ceisiadau a'ch rhwydwaith yn ehangach yn Platfform.

Gallwn hefyd gynnig lleoliadau i fyfyrwyr a fyddai'n dymuno cael profiad mewn lleoliad iechyd meddwl sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Cyfrifoldebau'r Rôl

• Croesawu pobl ifanc i'r Hwb a chreu awyrgylch cyfeillgar a hamddenol sy'n cefnogi trafodaeth

• Sicrhau bod diogelu a hawliau plant a phobl ifanc wrth galon ein gwaith o ddarparu gwasanaethau

• Cefnogi neu gynnal gweithgareddau mae pobl ifanc yn eu mwynhau, a hybu ymdeimlad o gysylltiad a pherthyn

• Helpu pobl ifanc i ddweud eu dweud a mynd ati i gasglu adborth ar y cymorth a'r gwasanaeth

• Meithrin perthnasoedd cryf o fewn eich tîm, gan gyfrannu syniadau ac atebion er budd y bobl ifanc

Os oes gennych chi ddiddordeb yn y cyfle hwn, llenwch y ffurflen gais yma!

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y cyfle i wirfoddoli, mae croeso i chi gysylltu â Ruth, Cydlynydd Gweithgareddau a Gwirfoddoli'r Hangout ar ruthzewge.plaffform.org neu 07854810353

Rydyn ni’n credu bod lles hirdymor yn deillio o ddeall sut mae profiadau trawmatig yn gallu dylanwadu ar fywydau, o adnabod cryfderau pobl, ac o ganolbwyntio ar wella. Rydyn ni’n gwybod na allwn ni ‘drwsio’ pobl, ond gallwn gerdded ochr yn ochr â phobl a helpu lle bynnag gallwn ni ar eu taith.

Rydyn ni’n gwneud ein gorau glas i wneud Platfform yn lle gwych i weithio. Mae ein gwerthoedd a’n cenhadaeth yn rhan annatod o bopeth rydyn ni’n ei wneud.

darllenwch fwy am ein cyfleoedd gwirfoddoli yma